

Cyngor Sir Penfro
Crynodeb
Adolygiad Gwella
2017-2018
www.sir-benfro.gov.uk

Ble i gael mwy o wybodaeth a Datganiad o Gydymffurfiad

Mae'r adolygiad cryno hwn yn rhan o'n gwaith i gyflawni ein dyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i gyhoeddi gwybodaeth am wella. Mae hefyd yn cyflawni ein dyletswydd i adrodd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyhoeddi data cydraddoldeb am ein gweithlu.

I gael copi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â: Jackie Meskimmon ar 01437 776613.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn yr adran Cynllunio Gwelliant ar ein gwefan. Gallwch olrhain ein perfformiad diwethaf trwy edrych ar ein hadroddiadau rheoli perfformiad integredig hefyd, sy'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu bob chwarter.

Rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn chi. Mae'r adran *Dweud eich Dweud* ar ein gwefan yn cynnwys manylion am ein hymgynghoriadau presennol. Byddwn yn ymgynghori ar ein blaenoriaethau gwariant ar gyfer y dyfodol yn ystod hydref/gaeaf 2017.

Os oes gennych unrhyw adborth ar y cynllun hwn neu os hoffech lywio'r gwaith o ddatblygu amcanion llesiant y dyfodol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Dan Shaw
Rheolwr Cynllunio Corfforaethol
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Ffôn: 01437 775857
policy@pembrokeshire.gov.uk
www.sir-benfro.gov.uk

Contents

Ynghylch yr adroddiad hwn 4
Cynnydd ar wella Llywodraethu 4
Cynnydd ar wella sut fyddwn yn rheoli Adnoddau 4
Yr Amcan Ffyniannus 5
Y Nod Cydnerth 7
Y Nod Iach 8
Y Nod Cyfartal 9
Y Nod Cymunedau Cydlynol 10
Nod Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu 11
Nod Cyfrifol yn Fyd-eang 12

Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni ein dyletswyddau dan ddau ddarn o ddeddfwriaeth i roi cyfrif am ein perfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Trefnwyd yr adroddiad o gwmpas saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf hon yn creu dyletswydd arnom i gyflawni Datblygiad Cynaliadwy ac ystyried effaith penderfyniadau ar genedlaethau a ddaw.

Yn ystod 2017-18, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ei Gynllun Ffyniant. Mae hwn yn cyflwyno'r strategaeth ar gyfer sut mae gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd yn cydweithio i wella ffyniant pobl a chymunedau yn Sir Benfro, heddiw ac yn y dyfodol. Bydd blaenoriaethau a phrosiectau'r Cynllun yn ysbrydoli ein blaenoriaethau ein hunain yn y dyfodol.

Cynnydd ar wella Llywodraethu

Ailetholwyd y Cyngor cyfan ar 4 Mai 2017 ac arweiniodd hyn at Weinyddiaeth newydd. Yn ystod 2017-18, datblygodd y Cabinet ei Raglen ar gyfer yr hyn mae am ei gyflawni erbyn etholiadau nesaf y Cyngor ym mis Mai 2022 ac fe fabwysiadwyd hyn ym mis Ebrill 2018. Mae'r Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth yn cyflwyno uchelgeisiau ar gyfer y canlynol, ymhlith pethau eraill: adeiladu mwy o dai cymdeithasol; creu cronfa datblygu cyfalafol strategol; canolbwyntio ar atal, yn enwedig o fewn gofal cymdeithasol; dal i wella addysg; a chreu cyngor effeithlon, cost-effeithiol a modern.

Daliwyd i wella sut all dinasyddion gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau ac archwilio penderfyniadau. Byddwn yn ystyried newidiadau eto yn ystod 2017-18.

Cynnydd ar wella sut fyddwn yn rheoli Adnoddau

Datblygwyd mwy ar ein Rhaglen Drawsnewid yn ystod 2017-18. Erbyn mis Ebrill 2018, ail lansiwyd y rhaglen, sydd erbyn hyn ar sail tair thema: technoleg, diwylliant a chysylltiadau. Fodd bynnag, mae'n amlwg na wnaethom y cynnydd yr oeddem eisiau ei wneud ar drawsnewid yn ystod llawer o 2017-18.

Ar waethaf cyd-destun ariannol anodd 2017-18, roedd ein gwariant clir o £204.8m am y flwyddyn yn fras yn unol â'r gyllideb wreiddiol. Ar y cyfan gwnaed cynnydd rhesymol yn ystod y flwyddyn ar gyrraedd y targedau lleihau costau / effeithlonrwydd / gweddnewid gwasanaethau gan gyflawni 64%. Bydd y £2.911m o leihau costau / effeithlonrwydd /gweddnewid gwasanaethau na chyflawnwyd yn 2017-18 yn cael ei dreiglo ymlaen i 2018-19.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai, sydd ar wahân i'r Gronfa Gyffredinol, dros £23m erbyn hyn. Gostyngodd ôl-ddyledion rhenti presennol tenantiaid bron £10k ar waethaf casglu rhyw £1 filiwn yn fwy o rent.

Cyflawnodd y Cyngor ei raglen gyfalaf fwyaf erioed yn ystod 2017-18. Gwir wariant cyfalaf y Cyngor yn 2017-18 oedd £74.725m gyferbyn â sefyllfa estynedig o £78.855m. Yr eitem unigol fwyaf o fewn hyn oedd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Yr Amcan Ffyniannus

Aeth ein gwaith rhagddo ar wella safonau mewn ysgolion a phennwyd amcan ffyniant ar gyfer y maes hwn. Gwnaethom ymweliadau creiddiol ag ysgolion gan borthi proses genedlaethol categoreiddio ysgolion. Hyrwyddwyd arferion gorau ac fe ddadansoddwyd gwybodaeth am berfformiad yn well sydd, yn ei dro, yn arwain at well canlyniadau. Gwellodd canlyniadau ar gyfer arholiadau Mehefin 2017 ac maent uwchlaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf ers 2012-13. Canlyniadau cynnar ar gyfer arholiadau Mehefin 2018 yn awgrymu ein bod wedi cynnal ein sefyllfa gymharol.

Daliwyd i bwysleisio ffyniant disgyblion a chanfod ac ymyrryd yn gynnar i atal problemau. Gallwn ddangos bod ymyriad cynnar, fel y dull sgrinio Cyfathrebu Cymdeithasol, yn effeithiol. Ailsgriniwyd y bobl ifanc hynny a nodwyd gennym yn 2016/17 fel rhai a allai fod ag anawsterau iaith a lleferydd ac nid yw eu hanner yn peri pryder bellach. Paratowyd hefyd ar gyfer cyflwyno fframwaith statudol newydd i gynorthwyo pobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Defnyddiwyd cymorth ariannol yr UE ar ddau brosiect mawr i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg neu hyfforddiant llawn-amser neu sydd angen cymorth ychwanegol i'w cael yn ôl i'r farchnad lafur.

Daliwyd hefyd i ganolbwyntio ar gyflawniad disgyblion â hawl i Brydau Ysgol am Ddim a'r cyfleoedd sy'n agored iddynt. Cynyddwyd 18% ar ganran y dysgwyr eFSM a gyflawnodd Lefel 2 y mesur cynhwysol (4.6 y cant) rhwng 2016 a 2017 yn Sir Benfro. Hwn oedd yr unig Gyngor yng Nghymru i wella ar y mesur hwn ac roedd gostyngiad o 35.5% i 28.6% ledled y wlad.

Gosodwyd y sylfeini ar gyfer gwella canlyniadau dysgwyr ôl-16 trwy fwy o gydweithredu rhwng ysgolion, Coleg Sir Benfro, darparwyr hyfforddiant a busnesau ac fe luniwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Choleg Sir Benfro ar gyfer cyflwyno addysg ôl-16.

Yn ystod y flwyddyn, aeth ein rhaglen ad-drefnu ysgolion rhagddi a daliwyd i ailfuddsoddi mewn ailwampio neu godi adeiladau ysgol newydd. Yn haf 2017, cymeradwyodd y Cyngor sefydlu ysgol Saesneg 11-19 newydd yn Hwlffordd ac ysgol gynradd Saesneg 3-11 newydd yn Aberdaugleddau. Parhaodd y rhaglen a gytunwyd o ailwampio ac adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif 'Band A' yn llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn a bydd yn hollol gyflawn erbyn mis Mawrth 2019. Fel cyfanswm, bydd hyn yn fuddsoddiad o £122m.

Ein hail amcan ffyniant oedd cynyddu cynhyrchiant yr economi a rhoi sylw i faterion adfywio. Roedd hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar Hwlffordd, ond roedd hefyd yn cwmpasu cyfleoedd

strategol fel Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Yn ystod 2017-18, sefydlwyd y trefniadau rheoli ar gyfer y fargen biliwn punt hon i fuddsoddi yn economi De-orllewin Cymru. Rydym hefyd wedi parhau gyda phrosiectau yn yr Ardal Fenter, fel parc bwyd Llwyn Helyg.

Daliwyd i ddatblygu a chynorthwyo Timau Trefi a datblygu uwchgynllun ar gyfer pob un o'n prif drefi .

- Datblygwyd mwy ar gynllun Hwlffordd nag uwchgynlluniau eraill ac roedd cynnydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer sinema aml-sgrin, tai bwyta ac ailddatblygu rhan o ganolfan siopa Glan yr Afon; bwrw ymlaen gyda phrosiect Llyfrgell y Sir ac Oriel Llyfrgell Genedlaethol Cymru; cyllid treftadaeth treflun ar gyfer nifer o adeiladau ac ymestyn yr ardal dan sylw. Rydym wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau celfyddydol i adfywio'r Dref ac mae enghreifftiau'n cynnwys Haverhub yn ogystal â phrosiectau celfyddyd gyhoeddus.
- Gorffennwyd uwchgynllun Dinbych-y-pysgod. Mae hwn yn nodi tri phrif brosiect: Sergeants Lane (ailwampio eiddo ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau crefftwyr a siopau crefftau, gan gynnwys bwyd a diod); yr Harbwr; a Rhodfa'r De (defnydd mwy bywiog o'r ardal hon, gwelliannau amgylcheddol, posibilrwydd goleuo nodweddion a thirweddu i greu gwell gofod cerdded).
- Gorffennwyd uwchgynllun Penfro yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn awgrymu tri phrif brosiect: 6-10 Stryd Fawr (safle archfarchnad y Co-op); Castle Terrace / Cei'r De; ac 1 Westgate Hill a Haven Church. Cei'r De yw un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer cymorth ariannol Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru yn 2018-19 a thu hwnt. Rydym hefyd wedi gorffen uwchgynllun ar gyfer Doc Penfro. Mae hwn yn cynnwys llai o fanylion na rhai o'r cynlluniau eraill, ond mae'n ymarferol ynghylch maint yr her.
- Oedwyd uwchgynlluniau ar gyfer Abergwaun ac Aberdaugleddau oherwydd bod cyd-destun adfywio'r ddwy dref wedi newid yn ystod y flwyddyn. Yn Abergwaun rhoddwyd cynlluniau marina hirsefydlog heibio. Tra bo hyn yn siomedig, mae'n golygu bod lle i edrych ar syniadau adfywio eraill ar gyfer porthladd Abergwaun. Yn Aberdaugleddau, cyflwynodd Awdurdod y Porthladd gynigion ar gyfer ardal y glannau ar ddiwedd y flwyddyn a bydd y cynigion hyn yn pennu cyd-destun yr uwchgynllun.

Buom yn gweithio gydag amrywiaeth o fusnesau a sefydliadau i hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan ymwelwyr. Tra methodd ein cais Dinas Diwylliant ar gyfer Tyddewi, adeiladwyd ar y syniadau a'r egni yn y cais fel craidd cynnig £1.8m am gymorth ariannol yr Undeb Ewropeaidd dan yr enw Ailddarganfod Cysylltiadau Hynafol.

Mae'r Rhaglen ar gyfer y Weinyddiaeth yn cynnwys ymrwymiad i greu cronfa datblygu cyfalafol. Yn gyfochrog â hyn, comisiynwyd Adolygiad Cydweithwyr o swyddogaethau adfywio, eiddo a thwristiaeth ym mis Ebrill 2018. Gorffennwyd gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn ac mae disgwyl adroddiad yn yr hydref.

Y Nod Cydnerth

Pennwyd amcan ffyniant i ddiogelu ein hamgylchedd. Y rheswm dros bennu amcan ffyniant ar gyfer y maes hwn yw bod ein hamgylchedd yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a phwysau ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, gyda gormod ohonynt mewn cyflwr gwael neu weddol.

Dechreuwyd Prosiect Isadeiledd Gwyrdd yn ogystal â datblygu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a chynllun atal llifogydd yn yr Aber Bach. Rydym hefyd wedi datblygu cryn gynllun addasu ar gyfer llifogydd yn Niwgwl. Bydd adroddiad yn mynd i'r Cabinet yn ddiweddarach yn 2018-19 ar lwybr dewisol ac yna bydd cais i Lywodraeth Cymru a, gyfraniad cyllid.

Buom yn gweithio ar nifer o gynlluniau i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ac mae gobaith mawr i brosiect 'Cartrefi fel Gorsafoedd Trydan' o fewn Bargen Ddinesig Bae Abertawe ynghyd â Phrosiect Morol Doc Penfro i sefydlu parth arddangos ar gyfer profi dyfeisiau ynni o'r môr.

Gwnaed gwaith sylweddol hefyd ar gasglu a gwared gwastraff er mwyn cynyddu faint o wastraff a ailgylchwn yn y dyfodol. Bu ein Pwyllgor Craffu a Throsolygu Polisi a Chyn Penderfynu yn ymwneud llawer â'r gwaith hwn, er enghraifft wrth gloriannu dewisiadau a thrwy weithgor. Yn ystod y gaeaf, buom yn ymgynghori ar batrymau newydd ar gyfer casglu gwastraff a chafwyd llawer iawn o ddiddordeb, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol. Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Cabinet ar y patrwm newydd o gasglu gwastraff. O wanwyn 2019 ymlaen, bydd casgliad ailgylchu estynedig yn didoli ar ymyl y ffordd bob wythnos; a chasgliad sachau du bob tair wythnos yn lle bob pythefnos gyda chyfyngiadau ar nifer y sachau. Bydd casgliadau cynnyrch hylendid amsugnol swmpus hefyd i liniaru'r effaith negyddol all fod ar rai pobl agored i niwed.

Yn ystod y flwyddyn defnyddiwyd safleoedd tirlenwi i wared mwyafrif llethol y gwastraff gweddilliol a gasglwyd gennym. O ganlyniad, anfonwyd dair gwaith gymaint o wastraff trefol i dirlenwi y llynedd. Cafodd hyn hefyd effaith ar ein ffigurau ailgylchu oherwydd bod prosesu gwastraff i'w ddefnyddio fel tanwydd o wastraff yn caniatáu ailgylchu cyfran o'r deunydd. Achoswyd y penderfyniad hwn gan anawsterau gyda gweithrediad ein dull blaenorol o brosesu, sypio gwastraff a'i anfon ar long i Sweden i'w ddefnyddio mewn cyfleusterau ynni o wastraff. Yn ystod 2018-19 rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau eraill ar ateb gwahanol i wared gwastraff. Ers gwanwyn 2018, anfonwyd cyfran o'n gwastraff i gyfleusterau ynni o wastraff.

Y Nod Iach

Mae llawer o'n gwasanaethau'n cynorthwyo a hyrwyddo byw'n iach a phennwyd amcan ffyniant ar gyfer y maes hwn: cymunedau iach; gwella gofal cymdeithasol. Mae llawer mwy o wybodaeth am y maes hwn i'w chael yn adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cabinet Medi 2018.

Daliwyd i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, er enghraifft trwy roi defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach wrth galon sut gaiff gwasanaethau eu cyflenwi a'u cynllunio, gan bwysleisio atal, a phobl yn chwarae rhan weithredol yng ngwella eu ffyniant eu hunain.

Lleihawyd faint o bobl a roddwn mewn cartrefi nyrsio neu sefydliadau gofal preswyl trwy wneud gwell defnydd o wasanaethau cymunedol fel bod pobl yn gallu aros yn hwy yn eu cartrefi. Defnyddiwyd adnoddau'r Gronfa Gofal Canolraddol i greu gwasanaethau ataliol cymunedol cryfach fel y Cysylltwyr Cymunedol a lansio porth gwybodaeth DEWIS. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth hynod werthfawr i'r rhai sydd angen gwybodaeth am wasanaethau a fydd yn helpu diwallu eu hanghenion.

Rydym wedi gweithio ar draws y rhanbarth i ddod o hyd i ffyrdd o hybu datblygiad a chynnal twf mentrau ffyniant. Rydym hefyd wedi datblygu strwythurau rhanbarthol i sefydlu cyllideb gyfun gyda chynghorau cyfagos a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda llety preswyl a chartrefi nyrsio ar gyfer gofal oedolion.

Rydym wedi gwella sut fyddwn yn comisiynu gwasanaethau cymunedol fel gofal cartref trwy system Monitro Galwadau Electronig a gwella systemau gwybodaeth fel bod gennym wybodaeth fwy hygyrch erbyn hyn ynghylch costau cyflenwi gwasanaethau, sy'n golygu y gallwn wneud well defnydd o'n hadnoddau cyfyngedig.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid strategol a phobl gydag anableddau dysgu i gydgynhyrchu cynllun i gynorthwyo gweithredu'r Strategaeth Anabledd Dysgu. Mae'r strategaeth yn dechrau cael effaith go iawn trwy ddatblygiadau fel y pasbort hawdd ei ddarllen ar gyfer siopa a chludiant.

Yn ogystal â'n gwaith ar ofal cymdeithasol oedolion, daliwyd hefyd i wella arferion gofal cymdeithasol plant. Cynyddwyd lleoliad maethu trwy benodi Rheolwr Gwasanaeth newydd ar gyfer Plant mewn Gofal. Wrth dynnu ynghyd holl wasanaethau plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal dan yr un maes gwasanaeth cafwyd effaith gadarnhaol, trwy ddatblygu cynllun cynhwysfawr i roi sylw i amcanion gwella o fewn y gwasanaeth a hyrwyddo meysydd sy'n gwneud yn dda.

Rydym wedi chwyddo llais pobl ifanc yn eu prosesau gofalu a diogelu. Mae'r Diogelwyr Iau wedi cyfrannu at ddylunio a datblygu'r wefan ddiogelu ac fe'u rhoddwyd ar restr fer gwobrau Anrhydedd Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gwnaethom newidiadau i wella darpariaeth Dechrau'n Deg mewn ymateb i gwsmeriaid. Er enghraifft, rydym wedi dod â gwasanaethau magu plant yn fewnol, sydd wedi golygu ein bod yn gallu cynnig sesiynau unigol yn ogystal â gwaith grŵp.

Annog pobl i ymarfer mwy yw un o'r ffyrdd y gallwn gynorthwyo cynnal ffyniant pobl. Gwnaethom hyn trwy gynyddu rhychwant y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig trwy ganolfannau hamdden i ddenu rhai nad oedd yn defnyddio'r cyfleuster o'r blaen i'r canolfannau. Daliodd ein tîm datblygu chwaraeon i weithio gydag ysgolion i gynyddu gweithgarwch pobl ifanc, yn enwedig y bobl ifanc hynny sy'n dod o deuluoedd gydag incwm isel.

Y Nod Cyfartal

Mae nod Cymru fwy cyfartal yn cwmpasu gwaith cydraddoldeb cyffredinol yn ogystal â gweithio ar leihau anghydraddoldeb incwm ac effaith y rhain ar iechyd, ffyniant a chyfleoedd bywyd pobl. Wnaethom ni ddim pennu amcan ffyniant ar gyfer y maes hwn, er bod llawer o agweddau ar ein hamcanion ffyniant eraill yn berthnasol.

Gwnaethom gynnydd ar sut fyddwn yn cynorthwyo cydraddoldeb fel sefydliad ac, yn ystod y flwyddyn, adolygwyd a diwygiwyd cylch gorchwyl ein Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i gynnwys ein harferion cydraddoldeb ein hunain fel sefydliad. Un o'r materion allweddol sy'n cael sylw'r grŵp hwn yw anghydraddoldeb cyflogau'r rhywiau. Cyhoeddwyd gwybodaeth ar wefan y Llywodraeth: Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'r wybodaeth am gydraddoldeb cyflogaeth y mae gofyn i ni ei rhoi. Dangosodd hyn hefyd bod menywod yn tueddu i fod mewn swyddi sy'n talu llai. Fel rhan o'n strategaeth gydraddoldeb newydd, byddwn yn cynnwys cynllun gweithredu o gwmpas lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd gwaith ar y cynllun hwn, a fydd yn diweddaru'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd yn 2015, yn parhau drwy gydol 2018-19.

Yn ystod 2017-18, rhoddwyd hyfforddiant cydraddoldeb i'r Aelodau fel rhan o'u cynefino. Byddwn yn ystyried pa hyfforddiant ychwanegol all fod yn briodol ar gyfer cyflogeion ac Aelodau fel rhan o'r strategaeth gydraddoldeb newydd.

Buom yn gweithio gyda Stonewall i wella arferion cydraddoldeb ym myd addysg a rhoddwyd hyfforddiant ar ddathlu gwahaniaeth ac atal ac ymosod ar fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Hefyd buom yn rhagbrofi arweiniad gwrth-fwlio mewn ysgolion, o'r enw rhaglen KiVa a ddatblygwyd yn y Ffindir.

Yn ystod y flwyddyn, daliwyd i wneud gwaith paratoadol ar gyflwyno Credyd Cynhwysol. Craffwyd hefyd ar effaith tlodi'n fwy cyffredinol. Cynhaliwyd gweithdy i'r Aelodau dan arweiniad Sefydliad Bevan ym mis Chwefror 2017. Edrychodd hwn ar wahanol agweddau at leihau tlodi a'i effaith yn Sir Benfro. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i ysbrydoli ein cynlluniau at y dyfodol.

Y Nod Cymunedau Cydlynol

Canolbwynt y nod cymunedau cydlynol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw meysydd fel tai, ynghyd â sut mae pobl mewn cymunedau'n cyd-dynnu, ac yn ymwneud â materion cludiant a diogelwch cymunedol.

Pennwyd amcan ffyniant ar gyfer cymunedau iach: cymunedau gyda chymorth tai fforddiadwy a phriodol. Darparu tai fforddiadwy yw un o'r ffyrdd y gallwn gynnal cymunedau, trechu tlodi a gwella iechyd. Cynyddwyd 84 yn nifer y cartrefi fforddiadwy; fodd bynnag, dechreuwyd adeiladu 216 o unedau hefyd a fydd yn cael eu gorffen yn 2018-19. 2017-18 oedd blwyddyn gyntaf gweithredu premiwm ail gartrefi'r dreth gyngor. Ers 1 Ebrill 2017, bu perchenogion ail gartrefi'n talu 50% o Dreth Gyngor ychwanegol gyda hanner y derbyniadau'n cael eu defnyddio ar gyfer tai fforddiadwy. Cytunwyd i godi premiwm ar gartrefi gwag hefyd.

Rydym wedi gwella sut gaiff ein tai ein hunain eu rheoli. Rydym wedi buddsoddi mewn cyflogi mwy o staff atgyweirio tai, gan leihau'r ôl-groniad o waith trwsio, a gwellwyd y drefn ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid. Byrhaodd cyfnodau gwag ac mae hyn yn gwneud gwell defnydd o'n tai ac yn galluogi cartrefu cwsmeriaid ar y rhestr aros ychydig yn gyflymach nag o'r blaen.

Dechreuwyd ar adolygiad o ddigartrefedd. Mae hwn yn dal ar y gweill er bod canfyddiadau cyntaf yn awgrymu fod gan y dull presennol ei rinweddau, ychydig o eiddo gwag sydd ac nid yw dulliau eraill yn cyflawni'r niferoedd gofynnol ar gyfer y cyfraddau llenwi cyfredol. Yn ogystal, mae cynigion eraill yn ddrutach.

Daliwyd i gyflawni mwy o addasiadau cartrefi, fel grantiau cyfleusterau pobl anabl. Rydym wedi lleihau'r amser a gymrwyd i gyflawni prosiectau grant. Cyflogwyd rhai da eu llaw'n unswydd ac maent erbyn hyn yn gwneud mân addasiadau i eiddo'r Cyngor, sydd wedi cyflymu'r gwaith. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i ganolbwyntio'r gwasanaeth ar anghenion cwsmeriaid.

Daliwyd i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned drwy gydol y flwyddyn. Cytunwyd ar ddrafft o Siarter gyda'r sector yn 2017-18 ac mae rhagor o waith ar y gweill yn ystod 2018-19 ar gyflawni hyn.

Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd ar sut fydd Grant Cyfoethogi Sir Benfro'n gweithio. Bydd hwn yn dosbarthu rhyw £900k i gymunedau Sir Benfro gydag arian a gynhyrchwyd o bremiwm ail gartrefi'r dreth gyngor. Yn ogystal â chronfa Sir gyfan, mae gan bob Cyngor Tref neu Gymuned ddyraniad cyllid tybiannol seiliedig ar nifer yr ail gartrefi sydd ganddynt. Trwy BGC Sir Benfro, ac mewn partneriaeth â'r Western Telegraph, rydym hefyd wedi lansio Gwobrau Balchder yn Sir Benfro. Gwnaed dyfarniad bob mis, ac mae enillwyr y £200 o wobr wedi cynnwys grwpiau gyda diddordeb yn yr amgylchedd lleol, chwaraeon, mannau chwarae, theatr a gofal cymdeithasol.

Daliwyd i ddatblygu seilwaith cludiant lleol, gan gynnwys teithio llesol. Ymgynghorwyd ar Fap Llwybrau Presennol Teithio Llesol a Map Rhwydwaith Llwybrau Cyfun yn ystod haf 2017. Cynhyrchwyd map llwybrau presennol newydd ac, yn ystod 2018-19, cyhoeddwyd cyfres o lwybrau beicio ar ein gwefan. Agorwyd ffordd liniaru Maiden Wells yn haf 2017, sy'n gorffen gwelliannau ffyrdd o'r A477 ar gyffordd Penfro i burfa Valero. Symudwyd ymlaen ar Ffordd Gyswllt Chimneys gyda gwaith rhagarweiniol wedi'i orffen yn haf 2017 a gorffennwyd ymgynghori, caniatâd cynllunio a bargeinion tir erbyn mis Tachwedd 2017. Wedyn cadarnhaodd Llywodraeth Cymru gynigion ar gyfer gwella'r gefnffordd drwy ganol y dref.

Mae rhan o'n gwaith ar gymunedau cydlynol yn golygu dal i ganolbwyntio ar ddiogelwch ac, o fewn hyn, rhown bwyslais ar fynd i'r afael â chamdriniaeth deuluol. Rydym wedi cyfrannu at yr asesiad anghenion rhanbarthol a strategaeth ranbarthol ar gamdriniaeth deuluol, a orffennwyd yng ngwanwyn 2018. Rhoddwyd llawer o hyfforddiant ar hyn yn ystod 2017-18. Mae rhyw 3,000 o staff wedi cwblhau'r modiwl hyfforddiant sylfaenol a 450 ohonynt wedi dilyn hyfforddiant uwch. Trwy arweiniadau fel Operation Encompass buom yn tynnu sylw hefyd at gamdriniaeth deuluol ymhlith pobl ifanc.

Nod Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu

Pennwyd amcan ffyniant i greu cymunedau hunangynhaliol a bywiog. Mae'r gwaith hwn yn rhedeg drwy lawer o'r nodau, nid yn unig diwylliant bywiog a'r Gymraeg. Mae diwylliant bywiog hefyd yn ategu llawer o'r nodau eraill, fel Ffyniant. Bydd prosiectau fel Llyfrgell ac Oriel newydd y Sir yn cynorthwyo adfywio yn ogystal â diwylliant.

Daliwyd i fuddsoddi ym Maenordy Scolton. Mae prosiect £160,000 o gyllid RDP Ewropeaidd ar y gweill i wella cyfleusterau a seilwaith y safle. Mae cynllun manwl yn cael ei lunio ar gyfer cyfnod dilynol terfynol o ddatblygu, gyda benthyca darbodus a chymhorthdal yn sail iddo.

Rhan o'n swyddogaeth yw gwarchod treftadaeth bensaernïol Sir Benfro. Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd ar, ac yna mabwysiadwyd, Arfarniadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli ar gyfer Penfro a Doc Penfro.

2017/18 oedd blwyddyn lawn derfynol prosiect Cymer Cyngor y Celfyddydau. Mae hwn yn brosiect celfyddydau ac adfywio sydd â'r nod o ailddychmygu'r porthladd hynafol fel lle bywiog a neilltuol, wedi'i ailgysylltu â'i afon ac yn cael ei ysgogi gan greadigrwydd ei bobl. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae'r rhaglen £300k wedi denu o leiaf 7000 i fwy na 70 o achlysuron. Daeth y prosiect i ben ar 30 Mehefin 2018. Rhan o etifeddiaeth cyfnod y prosiect a gyllidwyd gan Gyngor y Celfyddydau yw comisiynu rhywfaint o gelfyddyd gyhoeddus. Gosodwyd dau gerflun afon ym mis Mehefin 2018.

Daliwyd i weithredu Safonau'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau. Cytunwyd ar strategaeth bum mlynedd newydd ym mis Chwefror 2018 i fynd ati i hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, yn y gweithle ac ym myd addysg. Bydd yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ac annog defnyddio'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig.

Nod Cyfrifol yn Fyd-eang

Wnaethom ni ddim pennu amcan ffyniant perthnasol i'r nod hwn. Fodd bynnag, mae ein hamcan ffyniant o ddiogelu ein hamgylchedd yn cyd-fynd â bod yn gyfrifol yn fyd-eang. Maes arall lle'r ydym yn cyrraedd y nod hwn yw trwy ein gwaith yn cynorthwyo cartrefu nifer bach o deuluoedd ar ffo o Syria. Ym mis Mawrth 2017, yn dilyn cynllunio helaeth i baratoi ar gyfer eu dyfodiad, cyrhaeddodd teulu o ddau oedolyn a phedwar o blant. Cawsant eu cynorthwyo'n drylwyr gan Wasanaeth y Tîm o Amgylch y Teulu ac mae'r holl asiantaethau wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i'w cael i ymdoddi. Yn dilyn ymgyrch farchnata i gael hyd i dŷ addas, cartrefwyd ail deulu o ddau oedolyn a thri o blant gennym ni ym mis Ionawr 2018.

Yn gyfochrog, mae grwpiau cymunedol hefyd wedi ailgartrefu ffoaduriaid. Yn cael eu galw'n Grwpiau Croeso, cafodd y rhain nawdd cymunedol a chymeradwyaeth gennym ni a'r Swyddfa Gartref i ailgartrefu teuluoedd ar ffo. Cartrefwyd teuluoedd mewn tair tref ac maent yn cael cymorth ymarferol o'r gymuned.